

Chwedl Santes Dwynwen



Dwynwen yw nawddsant cariadon Cymru. Roedd hi'n dywysoges yn byw ar Ynys Môn yn y 5ed ganrif. Roedd hi'n ferch i'r Brenin Brychan Brycheiniog, y prydferthaf o'i 24 o ferched.

Cwympodd Dwynwen mewn cariad gyda dyn o'r enw Maelon Dafodrill. Bwriadodd ei briodi, ond roedd ei thad, y Brenin, wedi trefnu iddi briodi rhywun arall. Roedd Maelon mor grac o glywed hyn, fe ymosododd arni.

Yn ei thristwch, aeth Dwynwen i'r goedwig. Yno, gweddiodd i Dduw am gael anghofio Maelon. Syrthiodd Dwynwen i gysgu, ac yn ei chwsg ymwelodd angel â hi gan ddweud y gallai roi diod iddi a fyddai'n gwneud iddi anghofio Maelon ac yn troi Maelon yn dalp o rew.

Gweddiodd Dwynwen am dri dymuniad. Dymunodd Dwynwen i beidio troi Maelon yn dalp o rew, i sicrhau bod cariadon Cymru yn hapus, a na fyddai hi ei hun byth yn priodi.

Gwireddwyd ei dymuniadau hi, ac o ganlyniad i hynny, cysegrodd ei bywyd i Dduw. Daeth yn lleian gan sefydlu eglwys ei hun mewn lle a henwyd ar ei hôl - Ynys Llanddwyn. Bu farw yno yn 460 O.C.

Daw'r enw Llanddwyn o'r geiriau Llan + Dwyn, sy'n golygu Eglwys y Santes Dwynwen.



MENTRAU IAITH



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Saint Dwynwen's Tale



Dwynwen is Wales' patron saint of lovers. She lived on Anglesey in the 5th century. She was said to be the most beautiful of King Brychan Brycheiniog's 24 daughters.

Dwynwen fell in love with a man named Maelon Dafodrill, and intended to marry him. However her father had already arranged for her to be married to someone else. Upon hearing this news, Maelon became so enraged that he attacked Dwynwen.

In her grief, Dwynwen fled to the forest. There she prayed to be able to forget her love for Maelon. In time she fell asleep, and in her sleep she was visited by an angel. The angel offered her a potion that would make her forget Maelon and would also turn him to ice.

Dwynwen prayed for three wishes. The first was for Maelon not to be frozen, the second was to secure the happiness of lovers, and the third was that she should never be married.

Her wishes were granted and in gratitude she dedicated her life to God, becoming a nun, and establishing her own church on the isle of Llanddwyn. She died there in 460AD.

The name Llanddwyn derives from the words Llan + Dwyn, literally meaning the Church of Santes Dwynwen.

Geirfa



Cymraeg

Saesneg

Pronunciation

Brenin

King

Brenn-inn

Cariad

Love

Kah-ree-add

Chwedl

Tale

Ch-wed-dle

Dymuniad

Wish

Dum-inn-yad

Eglwys

Church

Egg-lois

Gweddio

Pray

Gweh-thee-or

Lleian

Nun

Li-ay-ann

Priodi

Marry

Pree-oh-dee

Santes

Saint

Sant-ess

Tywysoges

Princess

Tuh-wuh-so-guess

Cwis Cyflym



1. Pryd oedd Dwynwen yn fyw?
2. Pwy oedd tad Dwynwen?
3. Ble oedd Dwynwen yn byw?
4. Pwy oedd Dwynwen am ei briodi?
5. Ble aeth Dwynwen i alaru?
6. Pwy ddaeth i ymweld â Dwynwen yn ei chwsg?
7. Cynigiwyd diod hudol i Dwynwen. Beth oedd y ddiod fod gwneud?
8. Beth oedd tri dymuniad Dwynwen?
9. Beth wnaeth Dwynwen ar ôl y gwireddwyd ei dymuniadau?
10. Beth yw ystyr yr enw Llanddwyn?

Quickfire Quiz



1. When did Dwynwen live?
2. Who was Dwynwen's father?
3. Where did Dwynwen live?
4. Who did Dwynwen wish to marry?
5. To where did Dwynwen flee?
6. What visited Dwynwen in her sleep?
7. What was the potion supposed to do?
8. What were Dwynwen's three wishes?
9. What did Dwynwen do once her wishes had been granted?
10. What is the meaning of the name Llanddwyn?

Chwilair



L	W	N	D	R	G	W	E	D	D	I	O	L	N
A	N	E	E	G	A	S	W	O	L	I	R	L	N
S	H	D	S	N	O	E	E	D	I	E	A	A	R
S	L	I	G	S	W	I	T	E	R	L	S	N	I
S	I	E	L	E	D	Y	M	U	N	I	A	D	B
L	L	I	A	G	C	S	C	R	E	I	N	D	R
R	D	W	W	O	A	I	O	T	G	A	T	W	E
H	N	L	A	S	R	H	E	I	L	Y	E	Y	N
E	S	E	C	Y	I	A	D	N	W	N	S	N	I
W	A	W	E	W	A	P	W	E	Y	T	A	L	N
I	D	T	I	Y	D	L	I	N	S	S	Y	O	R
I	N	D	G	T	R	S	G	L	D	D	H	L	E
I	D	O	I	R	P	L	L	E	I	A	N	U	N
A	C	H	W	E	D	L	Y	L	L	L	E	I	O

Darganfyddwch y geiriau yma:

Find the following words:

Angel Coedwig Llanddwyn Santes
Brenin Dymuniad Lleian Tywysoges
Cariad Eglwys Priodi
Chwedl Gweddio Rhew



MENTRAU IAITH



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich 3 Dymuniad



Gweddiodd Dwynwen am dri dymuniad. Beth fyddai eich tri dymuniad chi?

Dwynwen prayed for three wishes. If you had three wishes, what would they be?

1

2


3

Llwy Garu



Bydd rhai yn rhoi llwy garu i'w cariad fel anrheg ar ddiwrnod Santes Dwynwen. Dechreuodd y traddodiad yng Nghymru ganrifoedd yn ôl pan fyddai dynion ifanc yn cerfio llwy allan o bren fel symbol o'u cariad.

Some may gift a lovespoon to their partner on St Dwynwen's Day. The tradition of gifting lovespoons began centuries ago in Wales, when young men would carve the spoons out of wood to present to their lover.



Geirfa Cerdyn



Ysgrifennwch eich cerdyn Santes Dwynwen yn Gymraeg eleni.

Write your St Dwynwen's card in Welsh this year.

I

-

To

Fy nghariad

-

My love

Fy

-

My

mam/nhad/ffrind

mother/father/friend

Diwrnod Santes

-

Happy St

Dwynwen Hapus

Dwynwen's Day

Rwy'n dy garu di

-

I love you

Dymuniadau gorau

-

Best wishes

Llawer o gariad

-

Lots of love

Oddi wrth

-


From

Creu Cerdyn



Beth am ddefnyddio un o'r templedi isod i greu eich cerdyn eich hun. Argraffwch eich hoff un, lliwiwch e a wedyn defnyddiwch yr eirfa uchod i ysgrifennu eich neges.

Why not use one of the following templates to create your own card? Print your favourite design, colour it in, and then use the vocabulary sheet above to write your message,



Coriold



MENTRAU IAITH



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwmni Ffi




MENTRAU IAITH




Llywodraeth Cymru
Welsh Government




dydd
Santŷ
Dwynwyl
Ihapus






Cwmrawd





Lliwio



twinkl.com